**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mai 25ain 2016 am 7.30 yh yng Nghanolfan Gwytherin

Ymddiheuriadau: Ifor Edwards, Elen Edwards

Presennol: D Gwynfor Davies (Cadeirydd), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Tecwyn Evans, Ian W Griffith, Gwydion A Jones a'r Clerc.

Croesawyd Mr Tecwyn Evans yn ôl atom yn dilyn gwaeledd.

54.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

54.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfodydd Ebrill 20fed a Mai 11eg 2016 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu derbyn fel cofnod cywir.

54.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
54.3.1 DIWRNOD TACLUSO LLANGERNYW – bu'n fore llwyddiannus ar Fai 14eg ond yn anffodus cafwyd hyd i frwshes a thuniau paent wedi eu taflu tu ôl i'r toiledau.
54.3.2 GWEFAN Y CYNGOR – y Clerc i anfon cerdyn cydymdeimlad â Mr Arfon Parry wedi iddo golli ei fam.
54.3.3 SCIPIAU CYMUNEDOL – roedd rhai problemau yn dilyn darparu scipiau e.e. asbestos wedi ei adael ym Mhandy Tudur a PHENDERFYNWYD trafod y mater yn fanwl cyn archebu scipiau y flwyddyn nesaf.
54.3.4 PONT RHYDLECHOG – trafodwyd y posibilrwydd o osod pont ond PENDERFYNWYD i'w adael am y tro.

54.4 ADRODDIAD Y CADEIRYDD – wrth fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn cyfeiriodd y Cadeirydd D Gwynfor Davies ein bod yn byw mewn ardal brysur a bod llawer o geisiadau cynllunio yn dod ger ein bron – rhai busnes a phreswyl. Roedd un cais wedi mynd yn groes i'n barn sef melinau gwynt Pen y Bryn, Trofarth. Erbyn hyn mae Toiledau Cyhoeddus Llangernyw wedi eu hagor wedi blynyddoedd o fod ar gau. Diolchodd i'r Aelwyd am beintio arhosfannau bws ac i'r Clwb Garddio am blannu blodau. Mae dwy bont ar gau yn yr ardal ar hyn o bryd sy'n creu anhawster i'r defnyddwyr a'r preswylwyr lleol. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ac i aelodau'r cyhoedd am eu cyfraniad. Diolchodd i'r Clerc ac i bawb sydd wedi gweithio dros y Cyngor. Gwelai beth ansicrwydd gyda phleidlais Ewrop o'n blaenau. Diolchodd am y cyfle i fod yn Gadeirydd y Cyngor dros y flwyddyn.

54.5 ETHOL CADEIRYDD – etholwyd Gwydion A Jones yn Gadeirydd y Cyngor. Daeth Gwydion Jones i'r gadair a diolchodd i'r Cyn Gadeirydd am ei waith gydol y flwyddyn.

54.6 ETHOL IS-GADEIRYDD – enwebwyd Gwyn Williams yn Is-Gadeirydd.

54.7 IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR CYMUNED – PENDERFYNWYD yn unfrydol bod aelodaeth yr Is-bwyllgorau yn aros yr un fath eleni ond bod hawl i gyf-ethol.
54.7.1 Is-Bwyllgor Mynwentydd – Tecwyn Evans, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Ifor Edwards

54.7.2 Is-Bwyllgor Llwybrau – Tecwyn Evans, Gwyn Williams, Elen Edwards
54.7.3 Is-Bwyllgor Cylchlythyr – Gwyn Williams, Diane Roberts, Emlyn Williams

54.8 CYNRYCHIOLYDD Y CYNGOR AR BWYLLGORAU ALLANOL – PENDERFYNWYD yn unfrydol i'r cynrychiolwyr aros ymlaen ar y pwyllgorau: Amgueddfa'r Cwm – Cadeirydd Gwydion Jones; Canolfan Bro Cernyw – Ian W Griffith a Gerwyn Davies; Pwyllgor Rhanbarth Un Llais – Tecwyn Evans a Diane Roberts; Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Conwy – y Cadeirydd neu unrhyw aelod arall.

54.9 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
54.9.1 GWAHARDD MYNEDIAD ARFAETHEDIG – ALLT BRON GELLI, PANDY TUDUR Derbyniwyd llythyr gan yr Adran Traffig yn holi am ein barn ar wahardd traffig rhag teithio i fyny Allt Bron Gelli oherwydd y risg ar ben yr allt o ymuno â'r ffordd uchaf. PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
54.9.2 GOSOD DRYCH GER PARC AELAS, LLANGERNYW A GER Y STAG – roedd yr Adran Amgylchedd am edrych ar y broblem gweledigad a'r gor-dyfiant ond nid oeddynt yn gweld y byddai drychau yn debygol o gael eu caniatáu gan Lywodraeth Cymru oherwydd newid polisi.
54.9.3 CYFARFOD SAFLE GYDA MR DAVID JONES AS – bu cyfarfod ar bnawn Gwener Mai 20fed i drafod canlyniadau cau Pont dros Afon Gall ger Cartref y Ficerdy (Presennol: David Jones AS, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Diane M Roberts, Gwydion Jones, Gwenda Vaughan, Carol Walker a'r Clerc a chafwyd cyfarfod gyda Rheolwr Cartref yr Hen Ficerdy). Anfonodd Mr David Jones lythyr yn mynegi ein pryderon at Brif Weithredwr Cyngor B S Conwy gan holi pryd fyddai'n debygol y byddai gwaith yn cael ei wneud ar y bont.

54.10 MATERION CYNLLUNIO
54.10.1 Cais Rhif 0/42770 Estyniad a newidiadau arfaethedig yn Coed Bedw, Pandy Tudur gan Mr & Mrs A Hamer – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
54.10.2 Cais Rhif 0/42773 1) Trosi adeilad allanol garej presennol yn annedd (dosbarth defnydd C3) i gael ei ddefnyddio fel cartref gwyliau 2) Adeiladu tŷ gwydr (ôl-weithredol yn rhannol) 3) Adeiladu cegin i'w defnyddio mewn cysylltiad ag ardal fwyta tu allan 4) Defnyddio rhan cwrtil gardd tu allan ar gyfer dosbarth defnydd A3 yn Meirion Stores & PO, Llangernyw gan Mr & Mrs D Baines – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.
54.10.3 Cais Rhif 0/42782 Amrywio amod rhif 7, tynnu amodau 13, 14 ac 15 caniatâd cynllunio 0/38105 (Adeiladu 1 annedd (Adnewyddu y caniatâd cynllunio a roddwyd dan gôd rhif: 0/31827) ar dir ger Y Graig, Llangernyw gan Mr I Hughes – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

54.11 TOILEDAU LLANGERNYW – cafwyd adroddiad gan Ann Vaughan o'r datblygiadau diweddaraf. Mae Mr Gwynfor Davies, Swn y Nant yn eu hagor yn y bore a Mr Dylan Baines, Siop y Llan yn eu cau tua 6.30 yr hwyr. Roedd angen arwydd 'Anabl', angen bin gyda chaead arno, ac arwydd TOILEDAU dros dro i arwyddo'r safle. Cynigiodd Ann Vaughan gysylltu â Chonwy ynglyn â hyn. Rhoddwyd allwedd sbar y Toiledau i'r Clerc.

54.12 PWYLLGOR RHANBARTH UN LLAIS – cafwyd adroddiad o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Ebrill gan Diane M Roberts. Cafwyd siaradwyr ar 'Defibrillator' yn ystod y cyfarfod. Dywedodd y bydd pleidleisio yn y Cyfarfod Blynyddol ar 1af Hydref ar y newid i fod yn gwmni trwy warant a bod angen 120 yno i bleidleisio. Bu trafodaeth ar yr Archwilwyr Allanol newydd – gofynnwyd pam penodi cwmni o'r tu allan i Gymru a chodi costau. Hefyd pwysleisiwyd y bydd angen i bob cynghorydd fynychu hyfforddiant yn y dyfodol. Diolchwyd i Diane Roberts am ei hadroddiad. Cyfeiriwyd at y diffibriwlator fydd yn cael ei osod yn Llangernyw a'r costau o'i osod.

54.13 MATERION LLEOL
54.13.1 Roedd sbwriel wedi ei weld yn yr Ardd Goffa – angen cadw golwg.
54.13.2 Angen mwy o finiau baw cŵn yn Llangernyw – ger Tafarn y Bont a ger Pont Faen.
54.13.3 Roedd teimlad siomedig iawn nad oedd dim wedi ei wneud ar y Bont ger Y Ficerdy eto na gwelliannau i'r mannau pasio a.y.b. er i ni gael cyfarfod ers tair wythnos. Angen ail osod arwyddion GWYRIAD sydd wedi disgyn ac nid oes arwydd Gwyriad yn Glan Rhyd wrth ddod o ochr Llanrwst. PENDERFYNWYD cysylltu â'r Cynghorydd Dilwyn Roberts ynglyn â hyn hefyd.
54.13.4 Gwaith sal wedi ei wneud gan Gyngor Conwy ar ffens 'Bron Heulog', Llanfair TH – mae darnau ohoni yn disgyn o hyd.
54.13.5 Derbyniwyd llythyr diolch gan Ferched y Wawr Llangernyw am gyfraniad o Gronfa Bro Cernyw.
54.13.6 Penderfynwyd i wahodd Darren Millar AC i gyfarfod diwedd mis Gorffennaf.
54.13.7 Ciosg Pandy Tudur wedi ei ddifrodi – angen cysylltu â BT.
54.13.8 Hysbyswyd Cyfarfod Agoriadol Amgueddfa'r Cwm ddydd Sadwrn Mai 28ain am 2 o'r gloch.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 y.h.

*Cymeradwywyd y Cofnodion…G A Jones…………. Dyddiad ……29/6/16……………………*

The Community Council Annual Meeting was held on Wednesday, May 25th 2016 at 7.30 pm at the Gwytherin Community Centre

Apologies: Ifor Edwards, Elen Edwards

Present: D Gwynfor Davies (Chair), Diane M Roberts, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Tecwyn Evans, Ian W Griffith, Gwydion A Jones & Clerk.

Mr Tecwyn Evans was welcomed back following illness.

54.1 DECLARATION - members were given the opportunity to declare a connection with an item on the agenda.

54.2 MINUTES - looked at minutes of April 20 and May 11 2016 meetings and RESOLVED unanimously for them to be accepted as a correct record.

54.3 ISSUES ARISING
54.3.1 LLANGERNYW TIDYING UP - had a successful morning on May 14th, but unfortunately brushes and tins of paint were found thrown behind the toilets
54.3.2 COUNCIL WEBSITE - The Clerk to send a card of condolence to Mr Arfon Parry following the passing of his mother.
54.3.3 COMMUNITY SKIPS - some problems arised following delivery of skips eg Asbestos had been left in Pandy Tudur. RESOLVED to discuss the matter in detail before ordering skips next year.
54.3.4 PONT RHYDLECHOG - discussed the possibility of installing a bridge but RESOLVED to leave for now.

54.4 CHAIRMAN'S REPORT – looking back over the year the Chairman D Gwynfor Davies pointed out that we live in a busy area and there are many planning applications to be discussed - both business and residential. One application has contravened our opinion, namely Pen y Bryn, Trofarth wind turbines. Llangernyw Public Toilets have been opened after years of being closed. He thanked the Aelwyd for painting bus stops and the Gardening Club for planting flowers. Two bridges are closed in the area at the moment, which causes difficulties for users and local residents. The Chairman thanked the members for their support during the year and to members of the public for their input. He thanked the Clerk and everyone who has worked for the Council. He felt some uncertainty ahead with the European referendum. He expressed thanks for the opportunity to be the Chairman of the Council over the year.

54.5 ELECTION OF CHAIR - Gwydion A Jones was elected Chairman of the Council. Gwydion Jones became the chair and thanked the Past Chairman for his work throughout the year.

54.6 ELECTION OF VICE CHAIR - Gwyn Williams was nominated as Vice-Chairman.

54.7 COMMUNITY COUNCIL SUB COMMITTEES - RESOLVED unanimously that the membership of the Sub-Committees will remain the same this year but that there was a right to co-opt members.
54.7.1Cemeteries Subcommittee - Tecwyn Evans, Emlyn Williams, Gerwyn Davies, Ifor Edwards
54.7.2Footpath Subcommittee - Tecwyn Evans, Gwyn Williams, Elen Edwards
54.7.3 Newsletter Subcommittee - Gwyn Williams, Diane Roberts, Emlyn Williams,

54.8 COUNCIL REPRESENTATIVE ON EXTERNAL COMMITTEES - RESOLVED unanimously for delegates to stay on the committees: Cwm Museum - Chairman Gwydion Jones; Canolfan Bro Cernyw - Ian W Griffith and Gerwyn Davies; Regional Committee of One Voice - Tecwyn Evans and Diane Roberts; Conwy Community and Town Councils Forum - the Chairman or any other member.

54.9 ROAD ISSUES AND ENVIRONMENT
54.9.1 PROHIBITION OF ENTRY – BRON GELLI HILL, PANDY TUDUR
A letter from the Traffic Department is asking for our opinion on banning traffic from travelling up Bron Gelli hill because of the risk of joining the top road. RESOLVED unanimously to support the application.
54.9.2 PLACING A MIRROR NEAR PARC AELAS, LLANGERNYW AND NEAR THE STAG - the Department of Environment to look at the problem of vision and excessive growth but they did not see the mirrors would likely be granted by the Welsh Government due to change of policy.
54.9.3 SITE MEETING WITH MR DAVID JONES MP - had a meeting on Friday afternoon May 20 to discuss the consequences of the closure of the Bridge over River Gall near The Old Vicarage Nursing Home (Present: David Jones MP, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Diane M Roberts, Gwydion Jones, Gwenda Vaughan, Carol Walker and the Clerk and met with the Old Vicarage Home Manager). Mr David Jones sent a letter expressing our concerns to the Chief Executive of Conwy C B Council asking when it would be likely that the work would be done on the bridge.

54.10 PLANNING MATTERS
54.10.1 Application No. 0/42770 Extension and proposed changes in Coed Bedw, Pandy Tudur by Mr & Mrs Hamer - RESOLVED unanimously to support the application.
54.10.2 Application No. 0/42773 1) Conversion of existing garage outbuilding to dwelling (use class C3) to be used as a holiday home 2) Build a greenhouse (partly retrospective) 3) Construct a

in kitchen connection with dining area outside 4) use part curtilage garden outside for class A3 use in Meirion Stores & PO, Llangernyw by Mr & Mrs D Baines - RESOLVED unanimously to support the application.
54.10.3 Application No. 0/42782 Variation of condition No. 7, deleting conditions 13, 14 and 15 of planning permission 0/38105 (Building 1 dwelling (renewal of planning permission granted under code ref: 0/31827) on land near Y Graig, Llangernyw by Mr I Hughes - RESOLVED unanimously to support the application.

54.11 LLANGERNYW TOILET - Ann Vaughan reported on the latest developments. Mr Gwynfor Davies, Swn y Nant is opening the door in the morning and Mr. Dylan Baines, Village Shop is closing around 6.30pm. It needed a sign 'Disabled', needed a bin with a lid on it, and a temporary sign to show TOILETS site. Ann Vaughan offered to contact Conwy about this. The Clerk was given a spare key to the toilets.

54.12 ONE VOICE REGIONAL COMMITTEE - there was a report of the Meeting held on April 13 by Diane M Roberts. There were speakers on 'Defibrillator' during the meeting. There will be vote at the Annual Meeting on October 1 on the change into a company by guarantee and needed 120 members there to vote. There was discussion on the new External Auditors - asking why the appointment of the company outside of Wales and raising costs. Also emphasized the need for all councilors to attend future training. Diane Roberts was thanked for her report. Referred to the defibrillator which will be installed in Llangernyw and the costs of its installation.

54.13 LOCAL ISSUES
54.13.1 Litter seen in the Garden of Remembrance - need to be monitored.
54.13.2 Need more dog bins in Llangernyw - near Bridge Inn and near Pont Faen.
54.13.3There was a feeling of disappointment that nothing has been done on the bridge near Vicarage or improvements to passing places etc. although a meeting had been held approx three weeks ago. DIVERSION signs need replacing, some have fallen and there is no indication of Diversion in Glan Rhyd when coming from the side of Llanrwst. RESOLVED to contact Councillor Dilwyn Roberts about this too.
54.13.4 Bad workmanship has been done by Conwy Council on the fence 'Bron Heulog', Llanfair TH - pieces of it falling off.
54.13.5 Received a thank you letter from Merched y Wawr Llangernyw for a contribution from Cronfa Bro Cernyw
54.13.6 Decided to invite Darren Millar AM to a meeting at the end of July.
54.13.7 Pandy Tudur telephone kiosk is damaged - need to contact BT.
54.13.8 Opening session of the Cwm Museum on Saturday, May 28th at 2 pm.

The meeting ended at 9.15 y.h.

Approved the Minutes ..GA Jones............................... Date ......29/6/16..............................